

# DEWCH I 'NABOD...

Sôn am Lyfra sy'n holi'r awdur

## ALUN DAVIES

Diolch am y sgwrs!

## FFEITHIAU FFLACH

Dyddiad geni: 1980

Ganwyd yn: Aberystwyth

Byw yn: Caerdydd

Ffaith diddorol: Wnes i redeg 32 milltir mewn un diwrnod unwaith

### Beth ydi dy gefndir a be ti'n wneud rŵan?

Fe ges i fy ngeni yn Aberystwyth, a symud i Llundain yn 18 oed. Dwi'n gweithio gyda cyfrifiaduron, ac yn ei fwynhau fe'n fawr – ma fe'n broses o ddatrys problemau gwahanol pob diwrnod. Rhwng y gwaith, a'r ysgrifennu, a'r tri o blant sydd gen i rydw i'n eitha prysur!


### Beth wnaeth dy ysbrydoli i 'sgwennu gyntaf?

Ro'n i'n sgrifennu tipyn yn yr ysgol, ond wrth fynd yn hyn wnes i wneud llai a llai. Yna, sawl blwyddyn yn ol ro'n i'n darllen llyfr Cymraeg (wnai ddim ei enw fe) wnaeth ennill gwobr eitha pwysig a meddwl i'n hun y byddwn i'n gallu sgrifennu rhywbeth gwell – felly wnes i fynd ati i drio gwneud!

### Pa lyfr(au) sydd wedi dylanwadu arnat fel darllenwr ifanc?

Ro'n i'n darllen tipyn o bopeth – roedd gen i gwpwrdd mawr yn llawn llyfrau yn fy ystafell wely, o lyfrau Roald Dahl i storis ditectif. Ond o ran llyfrau i ddarllenwr 'ifanc', mae'r gyfres 'Harry Potter' wedi cael cryn ddylanwad – ro'n i'n arfer darllen y llyfrau i'm merch i bob nos, a'r ddau ohonom ni'n cwrdd a'n cymeriadau a'n mynd ar antur gyda'n gilydd.



### Yn gryno, beth sy'n gwneud llyfr da yn dy farn di?

Cymeriadau da. Does dim ots pa mor gyffrous yw'r stori, os nad oes gan y darllenwr ddiddordeb yn beth sy'n digwydd i'r cymeriadau yna mae'n anoddach o lawr i'r llyfr afael ynddyn nhw.

### Beth yw dy lyfr diweddaraf?

Enw'r llyfr yw 'Manadwyan Jones : Y Pair Dadeni'. Mae'n dilyn bachgen mud 15 oed sy'n byw bywyd arferol yn Aberystwyth nes iddo ddarganfod ei fod e'n perthyn o bell i un o arwyr y Mabinogi. Mae'n cael ei dynnu i frwydr sydd wedi bod yn digwydd ers canrifoedd rhwng etifeddion eraill y Mabinogi, a'n gorfod ymladd i achub ei hun, ei deulu, a'r byd.

Ro'n i eisiau creu cyfres o lyfrau antur ffantasi fyddai'n gafael yn darllenwyr ifanc Cymru, a darllenwyr o bob oedran hefyd. Mae yn elfennau o lyfrau Harry Potter, Game of Thrones a straeon ditectif hefyd, gyda llofruddiaethau, hiwmor, cleddyfau, a hud a lledrith. Rhywbeth i bawb, gobeithio!




### Sgen ti neges i ysbrydoli ysgrifenwyr ifanc?

Mae ysgrifennu llyfr fel rhedeg marathon – mae'n edrych yn anodd, ond yr unig beth sydd angen ei wneud i orffen yw i beidio stopio.



### Oes gen ti hoff/gas gymeriad o ffilm neu stori? Pam?



Y cymeriadau drwg yw'r rhai diddorol pob tro. Mae gen i fab tair mlwydd oed sy'n gwylio tipyn o 'Sam Tan', a fyswn i'n hoffi gwybod stori Norman Price ar ol iddo fe dyfu lan!